Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Cynhadledd Llywodraeth Cymru a'r
Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Un llwybr dysgu clir ar gyfer dod yn siaradwr Cymraeg – cefnogi dysgwyr o bob oed.

A Welsh Government and National Centre
for Learning Welsh Conference

One clear pathway to becoming a Welsh speaker – supporting learners of all ages.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

Gair o Groeso

Mark Drakeford,
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Mae'n bleser gen i eich croesawu i'r gynhadledd bwysig yma am y Gymraeg, sy'n cael ei threfnu gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Bydd ein Deddf y Gymraeg ac Addysg yn sicrhau cyfleoedd i blant a phobl ifanc ym mhob rhan o'r wlad i ddod yn siaradwyr Cymraeg annibynnol a hyderus drwy'r system addysg statudol, er mwyn gallu mwynhau'r iaith gydol eu bywydau.

Er mwyn cefnogi unigolion ar eu taith iaith, byddwn yn cyflwyno ffordd newydd o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, yn seiliedig ar fframwaith rhyngwladol cydnabyddedig y CEFR.

Dyma yw prif bwrpas y gynhadledd heddiw – i gyflwyno gwybodaeth a rhannu syniadau ar gyfer creu un llwybr dysgu clir i ddod yn siaradwr Cymraeg.

Edrychaf ymlaen at glywed gan nifer o arbenigwyr rhyngwladol blaenllaw yn y maes dysgu ieithoedd, fydd yn rhannu eu profiadau o ddefnyddio'r fframwaith mewn gwahanol gyd-destunau, gan gynnwys lleoliadau addysgol ac mewn gweithleoedd.

Cawn hefyd glywed am lwyddiannau'r Ganolfan wrth ddefnyddio'r fframwaith yn y sector Dysgu Cymraeg i oedolion.

Mae'r Ddeddf yn rhoi strwythurau yn eu lle fydd yn galluogi mwy ohonom i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn ein gweithleoedd ac yn gymdeithasol ac mae'r gynhadledd yma yn rhoi cyfle i ni ddysgu mwy am fanteision ymarferol seilio ein llwybr dysgu gydol oes ni ar gyfer y Gymraeg ar y CEFR.

Diolch am ymuno â ni heddiw, a gobeithio y byddwch chi'n mwynhau'r digwyddiad.

Word of Welcome

Mark Drakeford,
Cabinet Secretary for Finance and the Welsh Language

It is a great pleasure to welcome you to this important conference on the Welsh language, organised by the Welsh Government in partnership with the National Centre for Learning Welsh.

Our Welsh Language and Education Act will ensure that children and young people in every part of Wales have the opportunity to become independent and confident Welsh speakers through the statutory education system, so they can enjoy the language throughout their lives.

To support individuals on their language journey, we will be introducing a new way of describing Welsh language ability, based on the internationally recognised CEFR framework.

This is the main purpose of today's conference – to share information and ideas on creating one clear pathway to becoming a Welsh speaker.

I look forward to hearing from a range of leading international experts in the field of language learning, who will share their experiences of using the framework in different contexts, including education settings and workplaces.

We will also hear about the Centre's successes in applying the framework within the Learn Welsh for adults sector.

The Act puts structures in place to enable more of us to learn and use Welsh in our workplaces and socially. Today's conference is an opportunity for us to learn more about the practical benefits of using the CEFR as the basis for our life long learning pathway for the Welsh language.

Thank you for joining us today, and I hope you enjoy the event.

Cyflwyniad

Dona Lewis,
Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Creu siaradwyr Cymraeg sy'n mwynhau defnyddio'r iaith yw prif nod y Ganolfan, y corff cenedlaethol sy'n arbenigo mewn dysgu a chaffael y Gymraeg, ac mae'r gynhadledd heddiw yn gyfle arbennig i ni rannu gwybodaeth a thrafod sut i hwyluso taith iaith pobl o bob oed.

Mae mwy nag erioed o'r blaen yn dysgu'r iaith – dros 18,000 yn 2023-2024, cynnydd o 45% ers i'r Ganolfan gymryd cyfrifoldeb dros y sector Dysgu Cymraeg yn 2016.

Mae'r galw am gyrsiau'r Ganolfan yn uchel, a chynlluniau amrywiol ar gyfer gwahanol sectorau a chyflogwyr, gan gynnwys y Gweithlu Addysg, Pobl Ifanc, Iechyd a Gofal, a Theuluoedd yn denu cynulleidfaoedd newydd at yr iaith.

Mae'r Ganolfan wedi creu un llwybr dysgu clir ar gyfer dod yn siaradwr Cymraeg i oedolion, gyda chyrsiau ar wahanol lefelau, o ddechreuwyr i siaradwyr hyderus. Mae'r llwybr dysgu yma'n cyd-fynd â'r fframwaith rhyngwladol cydnabyddedig i ddisgrifio sgiliau iaith, y CEFR.

'Dyn ni'n falch o'r cyfle i gynnal y gynhadledd heddiw ar y cyd â Llywodraeth Cymru, ac i rannu ein harbenigedd dysgu a chaffael iaith er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg.

Dw i'n ddiolchgar i'r holl siaradwyr sy'n cymryd rhan heddiw, ac edrychaf ymlaen at ddiwrnod llawn o gyflwyniadau, gweithdai a thrafodaethau bywiog, gyda'r nod, yn y pen draw, o gefnogi pawb ar eu taith iaith.

Introduction

Dona Lewis,
Chief Executive, National Centre for Learning Welsh

Creating new Welsh speakers who enjoy using the language is the main aim of the National Centre for Learning Welsh, the national body specialising in Welsh language learning and acquisition. Today's conference is a valuable opportunity for us to share knowledge and discuss ways of supporting people of all ages on their language journey.

More people than ever before are learning Welsh – over 18,000 in 2023–2024, an increase of 45% since the Centre took responsibility for the Learn Welsh sector in 2016.

Demand for the Centre's courses is high, with a range of tailored programmes for different sectors and employers – including the Education Workforce, Young People, Health and Social Care, and Families – attracting new audiences to the language.

The Centre has established one clear pathway for becoming a Welsh speaker for adults, offering courses at different levels, from beginners to confident speakers. This pathway aligns with the internationally recognised framework for describing language skills, the CEFR.

We're proud to have the opportunity to host today's conference in partnership with the Welsh Government, and to share our expertise in language learning and acquisition as we support the implementation of the Welsh Language and Education Act.

I'm grateful to all the speakers taking part today and look forward to a day of lively presentations, workshops, and discussions, with the ultimate goal of supporting everyone on their language journey.

Rhaglen y Dydd

10.00 am	Cofrestru a phaned	
10.30 am	Sgwrs agoriadol	Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
10.50 am	Cyflwyniad	Dona Lewis, Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
11.00 am	Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd: tarddiad, diben, swyddogaeth, statws, dull, cynnwys, a defnydd.	Waldemar Martyniuk
12.00 pm	Cinio	
1.00 pm	Profiadau'r Byd Addysg Panel trafod: • Meinir Ebbsworth, Cyfarwyddwr Strategol a Dirprwy Brif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol • Alex Davies, Athro Blwyddyn 3, Ysgol Black Lane, Wrecsam • Dr. Matthew James Williamson-Dicken, Pennaeth Ysgol Panteg ac arweinydd strategol ar gyfer darpariaeth drochi Torfaen, Carreg Lam	Yr Athro Paula Kristmanson
1.40 pm	Profiadau'r Farchnad Lafur Panel trafod: • Lowri Bunford-Jones, Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol • Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth • Joseph Smith, Rheolwr Adnoddau Strategol, Cyfoeth Naturiol Cymru	Yr Athro Cecilie Hamnes Carlsen
2.20 pm	Datblygu un llwybr dysgu clir ar gyfer y sector Dysgu Cymraeg i oedolion – cwricwlwm, cyrsiau ac ymchwil.	Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol Emyr Davies, Swyddog Arholiadau Cymraeg i Oedolion, CBAC Steve Morris, Athro Cysylltiol Er Anrhydedd mewn Ieithyddiaeth Gymhwysol, Prifysgol Abertawe
2.40 pm	Diolchiadau	
2.45 pm	Paned a rhwydweithio	
3.30 pm	Gorffen	

Conference Programme

10.00 am	Arrival and Refreshments	
10.30 am	Opening Address	Mark Drakeford, Cabinet Secretary for Finance and the Welsh Language
10.50 am	Presentation	Dona Lewis, Chief Executive, National Centre for Learning Welsh
11.00 am	Common European Framework of Reference for Languages: origins, purpose, function, status, approach, content, and use.	Waldemar Martyniuk
12.00 pm	Lunch	
1.00 pm	Experiences from the Education Sector Panel Discussion: • Meinir Ebbsworth, Strategic Director and Deputy Chief Executive, National Centre for Learning Welsh • Alex Davies, Year 3 Teacher, Ysgol Black Lane School, Wrexham • Dr. Matthew James Williamson-Dicken, Headteacher of Ysgol Panteg and strategic lead for Torfaen's immersion provision, Carreg Lam	Professor Paula Kristmanson
1.40 pm	Experiences from the Labour Market Panel Discussion: • Lowri Bunford-Jones, Director of Planning and Development, National Centre for Learning Welsh • Gwawr Taylor, University Secretary and Director of Welsh Language, Aberystwyth University • Joseph Smith, Strategic Resourcing Manager, Natural Resources Wales	Professor Cecilie Hamnes Carlsen
2.20 pm	Developing one clear pathway for the Learn Welsh for adults Sector – Curriculum, Courses and Research.	Helen Prosser, Director of Teaching and Learning, National Centre for Learning Welsh Emyr Davies, Welsh for Adults Examinations Officer, WJEC Steve Morris, Honorary Associate Professor in Applied Linguistics, Swansea University
2.40 pm	Closing remarks	
2.45 pm	Refreshments and networking	
3.30 pm	Close	

Bywgraffiadau/Biographies

Mark Drakeford AS

Ganed a magwyd Mark Drakeford yng ngorllewin Cymru cyn symud i Gaerdydd fwy na 40 mlynedd yn ôl. Bu'n swyddog prawf, yn weithiwr cyfiawnder ieuenctid ac yn arweinydd prosiect Barnardo's yn Nhrelái a Chaerau. Bu'n Athro mewn Polisi Cymdeithasol a Gwyddorau Cymdeithasol Cymhwysol ym Mhrifysgol Caerdydd, ac mae hefyd wedi dysgu ym Mhrifysgol Abertawe.

Yn yr 1980au a'r 1990au roedd yn Gynghorydd Llafur ar Gyngor Sir De Morgannwg, gan arbenigo mewn materion addysg, gan gynnwys addysg cyfrwng Cymraeg. Rhwng 2000 a 2010 bu'n gweithio fel cynghorydd polisi iechyd a chymdeithasol yn Llywodraeth Cymru cyn dod yn bennaeth swyddfa wleidyddol y Prif Weinidog o dan Rhodri Morgan.

Daeth yn Aelod Cynulliad dros Orllewin Caerdydd ym mis Mai 2011. Penodwyd yn Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2013, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn 2016, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn 2017. Ar 12 Rhagfyr 2018 penodwyd yn Brif Weinidog Cymru a daeth yn aelod o'r Cyfrin Gyngor ar 13 Chwefror 2019. Ymddeolodd fel Prif Weinidog ym mis Mawrth 2024. Yn dilyn hynny, penodwyd yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ym mis Medi 2024.

Dona Lewis

Mae Dona Lewis wedi bod yn Brif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ers 2023.

Ymunodd â'r Ganolfan yn 2016 fel Dirprwy Brif Weithredwr, gyda chyfrifoldeb dros wasanaethau corfforaethol, ansawdd, a phrosiectau amrywiol, gan gynnwys cynlluniau Cymraeg Gwaith. Cyn hynny, treuliodd 16 mlynedd gyda Mudiad Meithrin, gan weithio mewn gwahanol

Mark Drakeford MS

Mark Drakeford was born and raised in West Wales before moving to Cardiff more than 40 years ago. A former probation officer, youth justice worker and Barnardo's project leader in Ely and Caerau, he has been a Professor of Social Policy and Applied Social Sciences at Cardiff University. He has also taught at Swansea University.

In the 1980s and 1990s he was a Labour Councillor on South Glamorgan County Council, specialising in education issues, including Welsh-medium education. Between 2000 and 2010 he worked as the Cabinet's health and social policy adviser at the Welsh Government, and was latterly head of the First Minister's political office under Rhodri Morgan.

He became the Assembly Member for Cardiff West in May 2011. He was appointed Minister for Health and Social Services in 2013, Cabinet Secretary for Finance and Local Government in 2016, and Cabinet Secretary for Finance in 2017. On 12 December 2018 he was appointed First Minister of Wales and became a member of the Privy Council on 13 February 2019. He stood down as First Minister in March 2024. He was subsequently appointed as Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language in September 2024.

Dona Lewis

Dona Lewis has been Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh since 2023.

Dona joined the Centre in 2016 as Deputy Chief Executive, with responsibility for corporate services, quality, and a range of projects, including the Work Welsh schemes. Before that, she spent 16 years with Early Years' specialists, Mudiad Meithrin, working in various senior roles,

uwch swyddi, gan gynnwys Cyfarwyddwr Gweinyddol, Dirprwy Brif Weithredwr a Phrif Weithredwr dros dro.

Fel Prif Weithredwr y Ganolfan, mae Dona yn arwain y corff cenedlaethol sy'n arbenigo mewn dysgu a chaffael iaith, ac sy'n gyfrifol am gydlynu a datblygu holl waith y sector Dysgu Cymraeg.

Ers sefydlu'r Ganolfan yn 2016, mae'r sector wedi profi twf aruthrol, ac erbyn hyn mae tua 18,000 o ddysgwyr yn cwblhau cyrsiau'r Ganolfan – cynnydd o 45% ers y cychwyn.

Yn enedigol o Ddyffryn Clwyd, mae Dona yn byw yng Nghaerdydd. Bu'n aelod o Gyngor Addysg Oedolion Cymru rhwng 2020 a 2025. Mae'n aelod o Fwrdd Cynghori Mwy na Geiriau, ac yn is-gadeirydd corff llywodraethwyr ei hysgol gynradd leol, ger Caerdydd.

Waldemar Martyniuk

Mae Waldemar Martyniuk yn Athro yn y Sefydliad Iaith a Diwylliant Pwylaidd i Estroniaid ym Mhrifysgol Jagiellonian yn Krakow, Gwlad Pwyl.

Mae gan Waldemar radd PhD mewn Ieithyddiaeth Gymhwysol ac mae'n hyfforddwr athrawon ac awdur gwerslyfrau, cwricwla a deunyddiau profi ar gyfer y Bwyleg fel iaith dramor, yn ogystal â chyfraniadau rhyngwladol ar bolisi ieithyddol, methodoleg a gweithredu.

Mae'n Athro a Darlithydd Gwadd mewn prifysgolion yn yr Almaen, y Swistir, yr UDA ac yn Tsieina.

Bu ar secondiad i Adran Polisi Iaith Cyngor Ewrop yn Strasbourg, Ffrainc yn ystod 2005–2006, ac eto yn 2008–2013 fel Cyfarwyddwr Gweithredol y Ganolfan Ieithoedd Modern Ewropeaidd yn Graz, Awstria.

including Director of Administration, Deputy Chief Executive, and Acting Chief Executive.

As the Centre's Chief Executive, Dona leads the national body specialising in language learning and acquisition, which is responsible for coordinating and developing the Learn Welsh sector's work.

Since the Centre was established in 2016, the sector has experienced remarkable growth, with around 18,000 learners completing courses — an increase of 45% since the beginning.

Originally from Dyffryn Clwyd, Dona lives in Cardiff. She was a member of the Adult Learning Wales Council between 2020 and 2025. She is a member of the More than Just Words Advisory Board and vice-chair of the governing body of her local primary school, near Cardiff.

Waldemar Martyniuk

Waldemar Martyniuk is a Professor at the Institute of Polish Language and Culture for Foreigners of the Jagiellonian University in Krakow, Poland.

Waldemar holds a PhD in Applied Linguistics and is a teacher trainer, author of several textbooks, curricula, and testing materials for Polish as a foreign language, as well as international contributions on language policy, methodology, and practice.

He is a Visiting Professor and Lecturer at universities in Germany, Switzerland, the USA and in China.

Waldemar was seconded to the Council of Europe, Language Policy Division in Strasbourg, France, in 2005-2006, and in 2008-2013 as Executive Director of the European Centre for Modern Languages in Graz, Austria.

Bu'n Gyfarwyddwr Gweithredol Canolfan Ieithoedd Prifysgol Jagiellonian (2013–2015), y Ganolfan ar gyfer Iaith a Diwylliant Pwylaidd (2016–2020), ac ers Chwefror 2018 mae wedi bod yn Gadeirydd y Pwyllgor Gweithredol, ac yn ddiweddarach, Bwrdd Ymddiriedolwyr Cymdeithas i Brofwyr Ieithoedd yn Ewrop (ALTE). Waldemar oedd Cadeirydd y Comisiwn Ardystio Gwladol ar gyfer Pwyleg fel Iaith Dramor (2016–2024).

Yr Athro Cecilie Hamnes Carlsen

Mae Cecilie Hamnes Carlsen yn Athro mewn caffael ail iaith ym Mhrifysgol Gwyddorau Cymhwysol Gorllewin Norwy.

Mae ganddi PhD mewn asesu iaith, ac mae wedi gweithio ers 20 mlynedd ar ddatblygu a dilysu profion iaith ar gyfer oedolion sy'n mewnfudo i Norwy.

Mae ei diddordebau ymchwil yn ymwneud yn bennaf â'r defnydd a'r camddefnydd o brofion iaith yng nghyd-destun mewnfudo, a chanlyniadau cymdeithasol profion ar wahanol grwpiau.

Roedd Cecilie yn rhan o brosiect IMPECT, oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r gofynion ieithyddol ar gyfer preswylio a dinasyddiaeth ar fewnfudwyr â sgiliau llythrennedd isel (2021–2025), a phrosiect DISCEFRN, a oedd yn ymchwilio i ba raddau y gall defnyddio gofynion ieithyddol safonol helpu i liniaru gwahaniaethu yn y farchnad lafur.

Mae Cecilie yn aelod arbenigol o ALTE, cyd-gadeirydd grŵp LAMI ALTE, ac yn gadeirydd Grŵp Trafod Cyfiawnder Cymdeithasol ALTE.

Yr Athro Paula Kristmanson

Mae Paula Kristmanson yn Athro yn Adran Addysg Prifysgol New Brunswick ac yn Gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Ail Iaith Canada.

Mae ei hymchwil a'i haddysgu yn canolbwyntio ar Addysgu Ffrangeg fel

He was Executive Director of the JU Language Centre (2013-2015), Centre for Polish Language and Culture (2016-2020), and since February 2018 Chair of the Executive Committee and then of the Board of Trustees at the Association of Language Testers in Europe (ALTE). He was Chair of the State Certification Commission for Polish as a Foreign Language (2016-2024).

Professor Cecilie Hamnes Carlsen

Cecilie Hamnes Carlsen is a Professor in second language acquisition at the Western Norway University of Applied Sciences.

She holds a PhD in language assessment and has worked for 20 years with the development and validation of language tests for adult migrants in Norway.

Her research interests are mainly related to the use and misuse of language tests in the migration context and the social consequences of tests on different groups.

Cecilie was part of the IMPECT project focusing on the consequences of language requirements for residence and citizenship on low-literate adult migrants (2021-2025) and the DISCEFRN project investigating whether the use of standardized language requirements can mitigate discrimination in the labour market.

Cecilie is an expert member of ALTE, co-chair of the ALTE LAMI sig, and chair of the ALTE Social Justice Discussion Group.

Professor Paula Kristmanson

Paula Kristmanson is a Professor in the Faculty of Education at the University of New Brunswick and the Director of the Second Language Research Institute of Canada.

Her research and teaching are in context of French second language and English as

ail iaith ac Addysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, yn ogystal â hyfforddiant athrawon.

Mae wedi bod yn rhan o sawl prosiect sy'n gysylltiedig â'r CEFR ers ei gyflwyno yng Nghanada yn 2006. Ynghyd â chyhoeddiadau academaidd yn ymwneud ag archwilio'r CEFR mewn dosbarthiadau iaith ysgol uwchradd, bu'n cymryd rhan yn natblygiad adnoddau proffesiynol amrywiol. Bu hefyd yn gweithio â chydweithwyr yn y Ganolfan Ieithoedd Modern Ewropeaidd (ECML) ar erthygl yn ymwneud â disgrifyddion iaith ar gyfer dosbarthiadau pwnc.

Dr. Matthew James Williamson-Dicken

Mae Dr. Matthew James Williamson-Dicken yn arweinydd addysgol, ac mae ei waith yn cwmpasu arfer ystafell ddosbarth, datblygu polisïau, a thwf proffesiynol parhaus athrawon.

Fel Pennaeth Ysgol Panteg ac arweinydd strategol ar gyfer darpariaeth trochi Torfaen, Carreg Lam, mae'n hyrwyddo addysg gynhwysol, gyda ffocws ar degwch.

Ffocws ei ddoethuriaeth oedd dadansoddi personoliaethau, ac mae'n awdur 10 llyfr yn y maes, gan gynnwys 'Applied Personality Development Framework' a 'Concise Illustrations of Personality Change'. Mae ei waith yn canolbwyntio ar bontio theori ac ymarfer.

Mae'n Is-gadeirydd y Gymdeithas ar gyfer Astudio Addysg Gynradd (ASPE), elusen sy'n annog defnydd ystyriol gan ymarferwyr addysg o ymchwil. Yn ddiweddar, arweiniodd brosiect ymchwil mewn cydweithrediad ag ysgolion ac adrannau llywodraeth Tokyo, er mwyn cymharu addysgeg, cwricwlwm, polisi a datblygiad systemig addysg iaith Gymraeg a Siapaneg, gan gynnwys gweithredu'r CEFR.

an additional language education as well as in teacher education.

She has been involved in several projects related to the CEFR since its introduction to Canada in 2006. Along with academic publications related to the exploration of the CEFR in high school language classes, she participated in the creation of professional resources. She also collaborated with colleagues at the European Centre for Modern Languages (ECML) on an article related to language descriptors for content (subject) classes.

Dr. Matthew James Williamson-Dicken

Dr. Matthew James Williamson-Dicken is an educational leader whose work spans classroom practice, policy development, and the ongoing professional growth of teachers.

As Headteacher of Ysgol Panteg and strategic lead for Torfaen's immersion provision, Carreg Lam, he promotes inclusive education with a focus on equity.

His doctoral research focused on personality analysis, and he is the author of ten books in the field, including 'Applied Personality Development Framework' and 'Concise Illustrations of Personality Change'. His work centres on bridging theory and practice.

He is the Vice-Chair of the Association for the Study of Primary Education (ASPE), a charity that encourages educators to make thoughtful use of research. Recently, he led a research project in collaboration with schools and government departments in Tokyo, comparing the pedagogy, curriculum, policy, and systemic development of Welsh- and Japanese-language education, including the implementation of the CEFR.

Alex Davies

Mae Alex Davies yn athro Blwyddyn 3 yn Ysgol Black Lane, Wrecsam, ac mae ganddo dros 15 mlynedd o brofiad o addysgu mewn addysg gynradd.

Mae Alex yn angerddol am ddysgu ieithoedd ac fe ddechreuodd ddysgu Cymraeg yn 2019 drwy'r cynllun dysgu dwys Cymraeg Mewn Blwyddyn i athrawon. Ers hynny, mae Ysgol Black Lane wedi bod ar daith i wella sgiliau staff a disgyblion.

Alex sy'n dal gwobr 'Defnydd Ysbrydoledig o'r Gymraeg' ac y llynedd, bu'n rhan o dîm o dan gynllun Taith Llywodraeth Cymru a aeth i Ganada i ddysgu am eu modelau a systemau dwyieithog er mwyn gwella systemau yn Wrecsam a Chymru.

Alex Davies

Alex Davies is a Year 3 teacher at Ysgol Black Lane in Wrexham with over 15 years teaching experience in primary education.

Alex is passionate about the learning of languages and started learning Cymraeg in 2019 with the Cymraeg Mewn Blwyddyn intensive learning scheme for teachers. Since then, Ysgol Black Lane has been on a journey to upskill staff and pupils.

Alex is the current holder of the 'Inspirational Use of Cymraeg' teaching award and last year, was part of a team under the Welsh Government's Taith scheme that went to Canada to learn about their bilingualism models and systems in order to improve systems in Wrexham and Wales.

Meinir Ebbsworth

Bu Meinir yn athrawes uwchradd Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf a Cheredigion, ac yna'n ymgynghorydd llythrennedd, yn Bennaeth Gwelliant Addysgol ac yna'n Gyfarwyddwr Addysg Cyngor Ceredigion.

Bu'n arwain ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yng Ngheredigion am nifer o flynyddoedd. Bu'n Brif Arholwr TGAU, ac mae wedi cyhoeddi nifer o adnoddau i ysgolion ym maes llythrennedd Cymraeg.

Bu'n aelod o Gomisiwn Cymunedau cyntaf Llywodraeth Cymru, ac mae'n aelod o Fwrdd Cyngor Llyfrau Cymru.

Bellach mae Meinir yn Gyfarwyddwr Strategol a Dirprwy Brif Weithredwr i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac mae rhaglenni'r Ganolfan ar gyfer Pobl Ifanc ac ar gyfer y Gweithlu Addysg ymhlith ei chyfrifoldebau.

Meinir Ebbsworth

Meinir was a Welsh secondary school teacher in Rhondda Cynon Taf and Ceredigion, before becoming a literacy consultant, Head of Educational Improvement, and later, Director of Education for Ceredigion County Council.

Meinir led on the Welsh in Education Strategic Plans in Ceredigion for several years. She has served as a GCSE Chief Examiner and published a number of resources for schools in the field of Welsh literacy.

Meinir was a member of the Welsh Government's first Communities Commission and is a Board member of the Books Council of Wales.

Meinir is now Strategic Director and Deputy Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh, with responsibility for the Centre's programmes for Young People and the Education Workforce.

Lowri Bunford-Jones

Dechreuodd Lowri ei gyrfa yn Adran Addysg Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ac ers hynny mae wedi gweithio ar hyd ei gyrfa yn y maes Dysgu Cymraeg, fel Tiwtor a Rheolwr.



Mae ei phrofiad yn cynnwys addysgu a datblygu'r cwricwlwm mewn Prifysgolion a Cholegau yng Nghymru, Llundain a'r Unol Daleithiau. Mae Lowri wedi gweithio fel arholwr arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC ac fel arolygydd cymheiriaid Estyn.

Cyn ymuno â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2023, bu Lowri yn arwain Dysgu Cymraeg Caerdydd, gyda chyfrifoldeb am gynllunio strategol a darparu rhaglenni Dysgu Cymraeg ar draws y rhanbarth.

Mae ei rôl bresennol fel Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu'r Ganolfan yn cynnwys goruchwylio darpariaeth dysgu o fewn sefydliadau a gweithleoedd, er mwyn ehangu mynediad at y Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni.

Dr Gwawr Taylor

Mae Gwawr Taylor yn Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae'n arwain ar feysydd llywodraethu, cydymffurfiaeth sefydliadol a strategaeth y Gymraeg, gan sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i hyrwyddo dwyieithrwydd ar bob lefel o'i gwaith.

Gyda phrofiad helaeth ym maes addysg uwch a pholisi, mae Gwawr yn chwarae rhan ganolog wrth gryfhau safle Prifysgol Aberystwyth fel sefydliad dwyieithog blaenllaw. Canolbwynt ei gwaith yw ymgorffori'r Gymraeg ym mhob agwedd ar lywodraethu, dysgu a bywyd y brifysgol, gan adlewyrchu'i hymrwymiad parhaol i hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw ac weithredol yn y byd academaidd a thu hwnt.

Lowri Bunford-Jones

Lowri began her career in the Education Department of the Welsh Language Board, and since then has worked throughout her career in the Welsh for Adults sector, both as a Tutor and a Manager.

Her experience includes teaching and curriculum development in universities and colleges in Wales, London and the United States. Lowri has worked as an examiner for the Welsh for Adults examinations for WJEC and as an Estyn peer inspector.

Before joining the National Centre for Learning Welsh in 2023, Lowri led Learn Welsh Cardiff, with responsibility for strategic planning and delivering Learn Welsh programmes across the region.

Her current role as Director of Planning and Development at the National Centre includes overseeing Welsh-language learning provision within institutions and workplaces, in order to broaden access to the language and increase its use.

Dr Gwawr Taylor

Gwawr Taylor is the University Secretary and Director of Welsh Language at Aberystwyth University.

Gwawr leads on governance, institutional compliance, and Welsh language strategy, ensuring that the University continues to champion bilingualism at every level of its work.

With extensive experience in higher education and policy, Gwawr plays a central role in strengthening Aberystwyth's position as a leading bilingual institution. Her work focuses on embedding the Welsh language across governance, learning, and community life, reflecting her long-standing commitment to promoting Welsh as a living, working language in academia and beyond.

Joseph Smith

Mae Joseph Smith yn Rheolwr Adnoddau Strategol yng Nghyfoeth Naturiol Cymru, lle mae'n arwain tîm talent a gyrfaoedd cynnar y sefydliad. Yn y rôl hon, mae Joseph yn goruchwylio asesiad iaith Gymraeg ar gyfer pob swydd ddisgrifiad ac yn cefnogi gweithredu fframwaith CEFR i gryfhau safonau iaith ledled y sefydliad.

Fel ieithydd ymroddedig sydd wedi graddio mewn Ffrangeg ac Almaeneg (BA Anrh), mae Joseph yn siarad Cymraeg, Ffrangeg, Almaeneg, Rwsieg a Saesneg. Mae ei yrfa'n ymestyn dros wyth mlynedd mewn addysg uwch a'r sector cyhoeddus, gyda ffocws cryf ar farchnata, recriwtio a rheoli pobl.

Cyn ymuno â CNC, bu Joseph yn rheoli cynnwys digidol a chyhoeddiadau yn adran marchnata a recriwtio myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, ac yn arwain tîm recriwtio AD y Brifysgol. Drwy gydol ei yrfa, mae Joseph wedi hyrwyddo mentrau sy'n cefnogi amlieithrwydd ac ymgysylltu diwylliannol, gan adlewyrchu ei angerdd dros iaith a chynhwysiant.

Helen Prosser

Mae Helen Prosser yn gweithio fel Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn y rôl yma, mae hi wedi bod yn gyfrifol am olygu a chyd-awduro cyfres o lyfrau cwrs o A1 (Mynediad) hyd at B2 (Uwch). Defnyddir y llyfrau cwrs hyn ar draws Cymru.

Mae'n gweithio'n gyson fel tiwtor Dysgu Cymraeg ac fel hyfforddwr ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg. Mae hi'n rhan o'r grŵp ymgynghorol sy'n gweithio ar y cod ar gyfer y Gymraeg a seilir ar y CEFR.

Emyr Davies

Emyr Davies sy'n gyfrifol am y gyfres o arholiadau Cymraeg i oedolion yn CBAC ac ef sy'n cynrychioli'r Gymraeg yn ALTE

Joseph Smith

Joseph Smith is Strategic Resourcing Manager at Natural Resources Wales, where he leads the organisation's talent acquisition and early careers team. In this role, Joseph oversees Welsh language assessment for all vacancies and supported the implementation of the CEFR framework to strengthen language standards across the organisation.

A committed linguist and graduate in French and German (BA Hons), Joseph speaks Welsh, French, German, Russian and English. His career spans over eight years in higher education and the public sector, with a strong focus on marketing, recruitment, and people management.

Before joining NRW, Joseph managed digital content and publications within Aberystwyth University's marketing and student recruitment department and led its HR recruitment team. Throughout his career, Joseph has championed initiatives that promote multilingualism and cultural engagement, reflecting his passion for language and inclusion.

Helen Prosser

Helen Prosser is Director of Teaching and Learning at the National Centre for Learning Welsh. In this role, she has been responsible for editing and co-authoring a series of course books from A1 (Entry) to B2 (Advanced) levels. These course books are used across Wales.

Helen works regularly as a Learn Welsh tutor and as a tutor trainer. She is also a member of the advisory group developing the code for the Welsh language, based on the CEFR.

Emyr Davies

Emyr Davies is responsible for the series of Welsh for adults examinations at the WJEC, and represents the Welsh language

(Cymdeithas i Brofwyr Ieithoedd yn Ewrop).

Ar ôl graddio yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth a chwblhau doethuriaeth, bu'n dysgu Cymraeg i oedolion yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin am 11 mlynedd. Yn y cyfnod hwnnw hefyd, cwblhaodd Uwch Ddiploma mewn Ieithyddiaeth yng Ngholeg Prifysgol Dulyn.

Ers 2001, ef sy'n gyfrifol am y pedwar cymhwyster i oedolion sy'n dysgu Cymraeg, o lefelau A1 i B2. Mae wedi gweithio ar nifer o brosiectau perthnasol gan gynnwys prosiect adolygu'r gydberthynas rhwng yr arholiadau a'r CEFR, prosiect a gwblhawyd y llynedd.

Steve Morris

Mae Steve Morris yn Athro Cysylltiol Er Anrhydedd mewn Ieithyddiaeth Gymhwysol ym Mhrifysgol Abertawe, gan arbenigo ar y Gymraeg.

Prif ganolbwynt ei waith yw'r rhyngwyneb rhwng Ieithyddiaeth Gymhwysol a'r Gymraeg, yn bennaf ym meysydd sosioieithyddiaeth; cynllunio a pholisi iaith; caffael iaith, cwricwlwm ac asesu.

Mae ganddo dros 35 mlynedd o brofiad o addysgu ac ymchwil yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae'n Gymrawd yn yr Academi Addysg Uwch a Chymdeithas Ddysgedig Cymru. O 2014-2020, roedd yn drysorydd / aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Ieithyddiaeth Gymhwysol Prydain (BAAL).

Mae Steve wedi chwarae rhan allweddol mewn mentrau cenedlaethol fel prosiect CorCenCC (Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes). Hefyd, mae wedi gwasanaethu fel arholwr allanol ac ymgynghorydd ar gyfer nifer o sefydliadau DU ac Ewropeaidd ac ar hyn o bryd, mae'n arwain prosiect y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i greu geirfa graidd o'r Gymraeg ar gyfer dysgwyr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg.

in ALTE (the Association of Language Testers in Europe).

After graduating in Welsh at the University of Wales, Aberystwyth, and completing a doctorate, he taught Welsh for adults at Trinity College, Carmarthen for 11 years. During that period, he also completed an Advanced Diploma in Linguistics at University College Dublin.

Since 2001, Emyr has been responsible for the four qualifications for adults learning Welsh, from levels A1 to B2. He has worked on a number of related projects, including a project reviewing the alignment between the examinations and the CEFR, which was completed last year.

Steve Morris

Steve Morris is an Honorary Associate Professor in Applied Linguistics at Swansea University, specialising in the Welsh language.

His work focuses on the interface between Applied Linguistics and Welsh, mainly in the areas of sociolinguistics; language planning and policy; language acquisition; curriculum and assessment.

Steve has over 35 years of experience in teaching and research relating to the Welsh language. He is a Fellow of the Higher Education Academy, and of the Learned Society of Wales. From 2014-2020, he was treasurer / member of the Executive Committee of the British Association for Applied Linguistics.

Steve has played a key role in national initiatives such as the CorCenCC (National Corpus of Contemporary Welsh) project. He has also served as an external examiner and consultant for various UK and European institutions and is currently leading a National Centre for Learning Welsh project to create a core vocabulary of Welsh for English medium primary school learners.

PWY 'DYN NI?

- Corff cenedlaethol sy'n arbenigo mewn dysgu a chaffael iaith.
- Sefydlwyd yn 2016 i arwain y sector Dysgu Cymraeg.
- Cytundebu naw darparwr rhanbarthol.
- Cydlynu cynlluniau, cyrsiau, adnoddau a rhaglenni ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

EIN NOD

- Creu siaradwyr Cymraeg sy'n mwynhau defnyddio'r iaith, trwy ddarparu strategaeth a gwasanaethau Dysgu Cymraeg cenedlaethol.

Denu – Dysgu – Defnyddio

> "...mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn esblygu o fod yn ddarparwr cyrsiau a gweithgareddau Cymraeg i oedolion yn unig i fod yn **ddylanwadwr ieithyddol**. Mae'n ganolog i fentrau niferus i **normaleiddio defnydd o'r iaith** ymhlith dysgwyr a siaradwyr anfoddog o bob oedran, yn gymunedol ac o fewn sectorau allweddol."
>
> *Estyn (Ebrill 2024)*

EIN DYLANWAD

18,330
yn dysgu Cymraeg

2,000
o gyflogwyr

1,500
o gyrsiau cymunedol



Cynnydd **274%**
yn niferoedd y dysgwyr ifanc

EIN CYNNIG

Cyrsiau i bawb: oedolion – pobl ifanc – gweithluoedd – teuluoedd – gweithlu addysg

- Cwricwlwm yn seiliedig ar y CEFR: Cyn-Fynediad (Pre-A1) – Uwch (C2)
- Dulliau dysgu amrywiol: wyneb yn wyneb – rhithiol – hunan-astudio – cyfunol
- Cynlluniau Cymraeg Gwaith: cyflogwyr – gweithwyr – sectorau amrywiol
- Gweithlu Addysg: gofal ac addysg blynyddoedd cynnar – addysg statudol – addysg drydyddol
- Pobl Ifanc: ysgolion – addysg drydyddol – prentisiaid – partneriaid
- Teuluoedd: rhieni a gofalwyr
- Rhaglen Codi Hyder a Defnyddio: croesawu pobl yn ôl at y Gymraeg

National Centre for Learning Welsh

WHO ARE WE

- National body specialising in language learning and acquisition.
- Established in 2016 to lead the Learn Welsh sector.
- Works with nine regional providers.
- Coordinates programmes, courses, resources and schemes for a range of audiences

OUR MISSION

- Create Welsh speakers who enjoy using the language, by providing a national Learn Welsh strategy and services.

Attract – Teach – Use

> ...the National Centre for Learning Welsh is evolving from being a provider of Welsh for adults courses and activities only, to being a **linguistic influence**r. It is central to numerous initiatives to **normalise the use of the language** among learners and reluctant speakers of all ages, both in the community and within key sectors.
>
> *Estyn (April 2024)*

OUR IMPACT

18,330
learning Welsh

2,000
employers

1,500
community courses



An increase of **274%** in the numbers of young learners

OUR OFFER

Courses for everyone: adults – young people – workforces – families – education workforce

- Curriculum based on the CEFR: Pre-Entry (Pre-A1) – Advanced (C2)
- Varied learning methods: face-to-face – virtual – self-study – combined
- Work Welsh Schemes: employers – workers – sectors
- Education Workforce: early years' education and care – statutory education – tertiary education
- Young people: schools – tertiary education – apprentices – partnerships
- Families: parents and carers
- Confidence-building: welcoming people back to Welsh

Parhau â'r daith

dysgucymraeg.cymru/sgiliaucymraeg

(Sganiwch y cod QR i gael rhagor o wybodaeth ac adnoddau, ac i rannu'ch adborth ar y gynhadledd.)

DIOLCH am eich cyfraniad at greu un llwybr dysgu clir ar gyfer y Gymraeg.

Continue the journey

learnwelsh.cymru/welshskills

(Scan the QR code for further information and resources, and to share your feedback on the conference.)

THANK YOU for your contribution to developing one clear pathway for the Welsh language.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru